# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys



## Dyfarniadau cyllid grant 2024-25

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Trosolwg

Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu’r pŵer i ddyfarnu grantiau lleihau troseddu ac anhrefn fel yr amlinellir yn adran 9 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Gellir rhoi'r grantiau hyn i unrhyw unigolyn i sicrhau neu gyfrannu at sicrhau gostyngiad mewn troseddu ac anhrefn yn ardal yr heddlu. Gall y grant fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r comisiynydd yn eu hystyried yn briodol.

Rhaid i gyllid grant gydymffurfio â'r amodau a nodir yn y Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae hyn yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau sy’n llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).

Mae’r Strategaeth Gomisiynu, yn amlinellu blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol gweithgareddau comisiynu. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddyfarnu grantiau fel un o’r llwybrau cyflawni.

## Ffurflen gais am gyllid

Ceisio sicrwydd gan ymgeiswyr bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu, gan roi hyder bod strwythurau llywodraethu busnes ac ariannol priodol wedi'u hymgorffori i reoli cyllid grant yn effeithiol.

## Sgorio cynigion a chrynodeb

Matrics sgorio i asesu ceisiadau a chydymffurfiaeth â gofynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## Gwneud penderfyniadau

Mae penderfyniadau i gynnig cyllid yn cael eu gwneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda chymorth y Tîm Gweithredol. Caiff cofnod penderfyniadau ei ddrafftio, yn amlinellu'r manylion ac yn cael ei gadarnhau gan y Tîm Gweithredol cyn ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyllidebau

Mae gan y comisiynydd sawl cyllideb sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae gan rai o'r rhain ddibenion penodol:

| Ffynhonnell incwm | Diben | Swm a fuddsoddwyd yn 2024-2025 |
|---|---|---|
| **Cronfa'r Comisiynydd** | Crëwyd y gronfa wrth gefn hon i ddarparu cronfa i'r comisiynydd tymor 3 newydd i gefnogi mentrau i ategu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. | **£185,135.74** |
| **Cronfa Wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd** | Mae'r gronfa hon yn ailddosbarthu arian a geir o werthu eiddo wedi'i ddarganfod ac fe'i defnyddir i gefnogi/rhoi i elusennau lleol. | **£3,335.15** |
| **Cronfa Deddf Enillion Troseddau** | Daw'r gronfa wrth gefn hon o gronfeydd sydd wedi'u dyrannu i ardal Dyfed-Powys o ganlyniad i orchmynion atafaelu sy'n deillio o enillion troseddau. Yna, defnyddir y cronfeydd wrth gefn hyn i gefnogi gweithgareddau gweithredol sy'n helpu i ddwyn troseddwyr gerbron y llys. | **£100,511.92** |
| **Cronfa Wrth Gefn Fforffediadau** | Mae hwn yn ailddosbarthiad o arian a atafaelir o dan adran 27 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau, ac a fydd – ar ôl ei fforffedu yn y llys – yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithrediadau sy'n targedu troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau<br>***Ni ofynnwyd am unrhyw gyllid a oedd yn briodol i'w gefnogi o'r gyllideb hon yn ystod 2024/25. Mae gwaith ar y gweill i annog ceisiadau gan dimau canfod, atafaelu ac ymchwilio i gyffuriau yn 2025/26.*** | **£0.00** |
| **Cronfa wrth gefn Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr** | Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cael ei chadw'n benodol i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â mentrau diogelwch ffyrdd. Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio i sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl er lles cymunedau ardal Dyfed-Powys. | **£45,785.13** |
| **Cronfa Wrth Gefn Ymyriad Cyffuriau** | Cronfa wrth gefn i gefnogi profion cyffuriau. | **£10,740.42** |
| **Cronfa Arloesedd** | Cyflawni prosiectau arloesi yn unol â blaenoriaethau'r comisiynydd. | **£10,365.36** |
| | **Cyfanswm:** | **£355,873.72** |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Lleoliad

Mae'r cyllid a ddyfarnwyd wedi'i ddosbarthu i'r ardaloedd canlynol:

| Lleoliad | Ledled ardal yr heddlu | Sir Benfro | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Powys |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 14 | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Gwerth** | £353,538.57 | £835.15 | £250.00 | £500.00 | £750.00 |
| **Cyfran** | 99.4% | 0.2% | 0.1% | 0.1% | 0.2% |

Mae’r gweithgareddau ledled ardal yr heddlu o fudd i holl gymunedau Dyfed-Powys.

Er nad yw rhai ardaloedd awdurdodau lleol wedi gwneud cais am gyllid yn uniongyrchol gan y comisiynydd nac wedi’i dderbyn, efallai eu bod wedi derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref a/neu gyllid grant Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae’r manylion hyn wedi’u nodi yn adran Cyllid grant a dderbyniwyd yr adroddiad hwn.

# Cronfa’r Comisiynydd

## Sefydliad Clwb Pêl-droed Abertawe – prosiect Premier League Kicks
## £41,666.67




Fel yr adroddwyd yn flaenorol, yn 2021 dyfarnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gontract grant tair blynedd i Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe i ddarparu sesiynau pêl-droed wythnosol am ddim i blant a phobl ifanc mewn pum ardal ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Nod rhaglen PL Kicks yw defnyddio pêl-droed a chwaraeon yn gyffredinol i ysbrydoli plant a phobl ifanc, ac i ddod â chymunedau at ei gilydd.

Mae'r fenter hon wedi profi i fod yn arf pwerus wrth gefnogi ymyrraeth gynnar a gwaith atal troseddu ymhlith ein pobl ifanc yn Aberystwyth, y Drenewydd, Penfro, Caerfyrddin a Llanelli.

Daeth y rownd ariannu hon i ben ar 30 Awst 2024.

Darparwyd cefnogaeth ariannol pellach o gronfa’r Ddyletswydd Trais Difrifol o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025 – mae manylion wedi’u cynnwys yn adran Cyllid grant a dderbyniwyd yr adroddiad hwn.

*“Rwy’n caru sut y gallwn ni ddod yma heb unrhyw gost. Rwy hefyd yn hoffi sut mae croeso i bawb a gallwn deimlo'n gartrefol yma. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw aelodau'r staff yn goddef unrhyw wahaniaethu, iaith anweddus na thrais.”*

Mae dros 90% o rieni wedi datgan eu bod yn teimlo bod eu plentyn wedi cael ei gefnogi drwy'r gweithgaredd hwn a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol.
Mae dros 80% o rieni yn credu bod y rhaglen wedi gwella iechyd meddwl eu plentyn.

*“Mae fy mab yn mwynhau dysgu sgiliau newydd a chymysgu â phlant eraill yn fawr iawn. Mae'r hyfforddiant yn dda ac mae'r sesiynau'n hwyliog ac yn gynhwysol”*



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa'r Comisiynydd

**Swydd Cydlynydd Stelcio**

**£8,000.00**

Darparwyd cyllid i gefnogi cost adnoddau Cydlynydd Stelcio Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r Cydlynydd Stelcio yn cefnogi'r broses nodi ac asesu risg digwyddiadau stelcio, gan sicrhau bod achosion yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

Mae'r cydlynydd yn monitro ymchwiliadau drwy adolygu asesiadau risg a nodi mesurau rheoli ychwanegol drwy orchmynion sifil a chymhwyso Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio.

Mae tystiolaeth bod y rôl hon wedi gwella'r broses o adnabod a rheoli troseddwyr stelcio.

O 2025/26 ymlaen, bydd costau adnoddau'r swydd hon yn cael eu talu'n llawn o gyllidebau Heddlu Dyfed-Powys.

Adolygu 720 o droseddau stelcio ers mis Mawrth 2024 gan ddarparu arbenigedd, cyngor ac arweiniad i swyddogion a staff rheng flaen.

Cyfarwyddyd ymchwiliol wedi'i ddarparu yn ymwneud ag adnabod teipoleg, gwybodaeth am raglenni troseddwyr sydd ar gael, cyfeirio at wasanaethau cymorth (Paladin), diogelu ac addasrwydd ar gyfer Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio.

Ymgysylltu rhagweithiol â phartneriaid yn ymwneud ag amodau Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio.

Adolygiadau misol gydag asiantaethau partner yn ymwneud ag atgyfeiriadau, gan sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi dioddefwyr stelcio yn briodol.

Ymchwil, meincnodi, sefydlu a gweithredu'r prosesau cyn cynnal Rhaglen Ymyrraeth Stelcio a phrosesau'r Rhaglen Ymyrraeth Stelcio misol sy'n cynnwys partneriaid mewnol ac allanol. Y nod yw cynyddu nifer y Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio yn Heddlu Dyfed-Powys o ganlyniad i hyn.

Darparu hyfforddiant stelcio i drosglwyddeion, recriwtiaid newydd, rhingylliaid a staff y Ganolfan Bregusrwydd.

Creu pecyn gwybodaeth pwrpasol i ddioddefwyr stelcio (sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ac annomestig).



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa’r Comisiynydd

**Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

**£38,000.00**



Yn ystod 2022/23, cytunodd holl gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru i gefnogi sefydlu tîm rhithiol, amlasiantaethol Cymru gyfan - Glasbrint trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru i fabwysiadu dull glasbrint i gefnogi cyflawniad yn erbyn strategaeth genedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2022-2026. Roedd hyn yn caniatáu i asiantaethau datganoledig, asiantaethau nad ydynt wedi’u datganoli, sefydliadau anllywodraethol, gwasanaethau arbenigol a goroeswyr i gydweithio i gydlynu camau gweithredu ac arwain gweithgareddau i gyflawni blaenoriaethau a rennir i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Darparwyd cyfraniad ariannol gan holl swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cymru a phob Heddlu yn ystod 2024/25 i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r strategaeth a gwreiddio'r ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â themâu presennol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae rhagor o wybodaeth am raglen y Glasbrint ar gael yn y ddolen ganlynol:

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint [HTML] | LLYW.CYMRU



# Cronfa'r Comisiynydd

**Cydweithio Academaidd**
**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**£28,284.07**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mewn cydweithrediad ag Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, wedi cytuno i dreialu swydd gydweithredol i wella'r dull o blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn Nyfed-Powys.

Bydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cyfrannu £25,000 y flwyddyn am ddwy flynedd ar gyfer y cynllun peilot. Bydd hyn yn cefnogi costau adnoddau cydlynydd ymchwil plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y rôl hon yn gwella partneriaethau rhwng sefydliadau academaidd lleol ac adrannau heddlu allweddol fel Dysgu a Datblygu, Perfformiad a Dadansoddeg, Y Ganolfan Atal Troseddau Ganolog a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Bydd cydlynydd ymchwil plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn trosi ymchwil leol yn ymarfer lleol, gan ymgorffori plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn plismona gweithredol o ddydd i ddydd trwy hyfforddiant, datrys problemau a phrosiectau.

## Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi – Mawrth 2025

Daeth y digwyddiad hwn ag ymarferwyr, ymchwilwyr a phartneriaid o bob cwr o Gymru a thu hwnt ynghyd i rannu arloesedd, arferion gorau a mewnwelediadau i bolisi ac arfer plismona. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan gydlynydd ymchwil plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Mae'r rôl hon wedi bod yn allweddol wrth gryfhau cysylltiadau rhwng plismona gweithredol ac ymchwil academaidd.

Drwy gofleidio plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan arwain yn y pen draw at blismona mwy effeithiol, effeithlon a mwy cymunedol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa'r Comisiynydd

## Cyfraniad Rhanbarthol Cyflawnwyr Cam-drin Domestig

**£19,850.00**

Mae'r comisiynydd wedi cyfrannu cyllid at y bartneriaeth ranbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod, merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ers 2021/22. Mae hwn wedi bod yn fuddsoddiad blynyddol mewn darparu rhaglenni i gyflawnwyr yn rhanbarthol.

Mae'r buddsoddiad ar y cyd â phartneriaid eraill ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn sicrhau bod y bartneriaeth yn medru cynnig rhaglenni ymyrraeth i gyflawnwyr sy'n gyson, yn hygyrch ac o ansawdd uchel, sydd yr un mor hygyrch ym mhob ardal o Ddyfed-Powys.

Yn unol â gwaith y bartneriaeth i wella trefniadau comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cymeradwyodd y bwrdd diogelu fodel dosraniad rhanbarthol i sicrhau cyfraniadau priodol gan bob partner.

Mae partneriaid strategol allweddol i gyd wedi cyfrannu at ariannu'r prosiect gyda'r comisiynydd yn cyfrannu 10% o'r gost gyffredinol.

Ym mis Awst 2024, cynhaliwyd gwerthusiad o'r broses atgyfeirio ar gyfer y rhaglenni ymyrraeth i gyflawnwyr troseddau gan Forensic Psychology Consultancy UK. Mae'r rhaglenni'n cynnwys:

- Dewisiadau
- Y Ganolfan Ymyriadau
- Myfyrio ar berthnasau.

**Y prif ganfyddiadau**

Yn ystod y flwyddyn mis Medi 2022 i fis Awst 2023:

- **Gwnaed cyfanswm o 83 o atgyfeiriadau i raglenni ymyrraeth i gyflawnwyr troseddau**
- **Daeth y rhan fwyaf o atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol**
- **Daeth y rhan fwyaf o atgyfeiriadau o ardal Powys**
- **Derbyniodd Choices y nifer uchaf o atgyfeiriadau**

Cafodd y gwasanaethau cyflenwi ganmoliaeth am eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cydweithrediad ag asiantaethau eraill.

Gwnaed saith argymhelliad ar gyfer gwella gwasanaethau sy'n cael eu hadolygu a'u gweithredu o 2025/26.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa'r Comisiynydd

## Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru - Arian cyfatebol

**£30,000.00**

Arweiniodd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru gonsortiwm o wasanaethau cam-drin domestig Dyfed-Powys i gyflawni prosiect Strydoedd Saffach 5 (SS5) y Swyddfa Gartref o'r enw Bystander Plus. Mae aelodau eraill y consortiwm hwn yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig Threshold; Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin a Chanolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn.

Llwyddodd y consortiwm hwn i gyflwyno prosiect tebyg yn ystod rowndiau blaenorol o gyllid Strydoedd Saffach, gan ddarparu canlyniadau effeithiol. Cyflwynodd y prosiect ymyriadau ataliol ac addysgol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

O ganlyniad i ganlyniadau cadarnhaol blaenorol, ehangwyd cwmpas a lleoliad y gweithgareddau hyn i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu i bob ardal o Ddyfed Powys. Roedd y gweithgareddau hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2025.

Yn dilyn cadarnhad o'r dyfarniad cyllid ym mis Medi 2023, recriwtiwyd adnoddau ychwanegol gan Bystander Plus i ddarparu'r gwasanaeth dros gyfnod y cyllid grant.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref doriadau sylweddol i gyllid gweithgaredd Strydoedd Saffach 5 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Er bod y consortiwm wedi nodi pob arbediad cost posibl, roedd diffyg cyllid o £30,000 yn parhau, gan roi'r gwasanaeth mewn perygl sylweddol.

**Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu cyllid o'i gyllidebau wrth gefn i gefnogi'r diffyg cyllid.** Mae rhagor o fanylion am ganlyniadau'r prosiect wedi'u nodi yn yr adran Strydoedd Saffach 5 isod.



# Cronfa’r Comisiynydd

**Cynllun Peilot Paladin**

**£19,335.00**

Lansiwyd cynllun peilot gyda Paladin ym mis Medi 2024 i gynnig eiriolaeth i ddioddefwyr stelcio risg uchel wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Mae Paladin yn cael eu cydnabod yn genedlaethol fel arweinwyr arferion gorau ar gyfer darparu cefnogaeth eiriolwyr achos stelcio annibynnol.

Drwy’r cynllun peilot hwn, mae Paladin hefyd yn darparu cefnogaeth tymor byr/cyngor untro i ddioddefwyr risg isel a chanolig. Mae hyn yn sicrhau lefel o gymorth i bob dioddefwr stelcio.

Mae Paladin wedi darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol i sicrhau bod gwasanaethau presennol â'r sgiliau priodol i gefnogi dioddefwyr stelcio fel cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei gyflwyno dros 12 mis.

Yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun peilot, recriwtiwyd dau Eiriolwr Achos Stelcio Annibynnol rhan-amser ar sail rhannu swydd (un cyfwerth ag amser llawn) gan Paladin.

Derbyniwyd 22 o atgyfeiriadau

Mae'r eiriolwyr achos stelcio annibynnol wedi eirioli achosion o fewn y system cyfiawnder troseddol ac wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod, eu diogelu a'u cefnogi.

Cyflwynwyd hyfforddiant i 32 o weithwyr proffesiynol ar draws ystod o wasanaethau sy'n delio â throseddau stelcio. Cafwyd yr adborth canlynol:

*“Rwy’n teimlo’n fwy hyderus i asesu’r risg, cynghori cleientiaid a hyrwyddo ymwybyddiaeth o fewn ein tîm ac asiantaethau eraill. Mae cael mewnwelediad i’r Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio yn ddefnyddiol iawn a byddaf yn hyrwyddo eu defnydd os yw'n berthnasol. Byddaf yn ymwybodol o stelcio posibl fel ffactor yn fy llwyth achosion, a byddaf yn wyliadwrus ac yn chwilfrydig”*

*“Roedd gwybodaeth ac arbenigedd yr hyfforddwyr yn amhrisiadwy”*

*“Roedd defnyddio enghreifftiau achos bywyd go iawn yn ddefnyddiol iawn gan fod clywed y ddamcaniaeth ar waith yn ddysgu mor dda”*



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Arloesedd

## ‘Trwy eu llygaid nhw’

**Dadansoddiad o hyfforddiant Heddlu Dyfed-Powys ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan ddefnyddio offer realiti rhithwir.**

**£10,365.36**

Mae cyllid wedi'i ddyfarnu i gefnogi prosiect cydweithredol rhwng Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth i wneud newid gweithredol drwy hyfforddiant sy'n ymgorffori technoleg i drawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig.

Mae hyn yn canolbwyntio ar brofiad dioddefwyr o ddarpariaeth gwasanaeth ac yn anelu at wella darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r prosiect yn treialu dull cyflwyno hyfforddiant cam-drin domestig newydd trwy benset realiti rhithwir ac mae'n cynnwys gwerthusiad academaidd ‘trwy lygaid’ hyfforddeion a hyfforddwyr.

Bydd y prosiect:

- yn darparu dadansoddiad o hyfforddiant cam-drin domestig rhanbarthol o safbwyntiau amrywiaeth o randdeiliaid
- yn archwilio hyfywedd realiti rhithiwr fel cyfrwng trochi mewn hyfforddiant heddlu
- yn casglu tystiolaeth gadarn sy'n llywio paratoi cynnig ar raddfa fawr a fydd yn gofyn am gydweithrediad rhanddeiliaid rhanbarthol i gyd-greu offeryn realiti rhithwir ar gyfer hyfforddiant, wedi'i lywio gan y prototeip
- yn ymgorffori perthynas waith gydweithredol rhwng Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth wrth ddatblygu technoleg trochi arloesol i drawsnewid hyfforddiant i swyddogion heddlu ac ymarferwyr rheng flaen eraill ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae tîm y prosiect wedi cysylltu ag arweinydd hyfforddiant yr heddlu cyn cynnal cyfweliadau ymchwil â staff hyfforddi'r heddlu, carfan o hyfforddeion, a thrawstoriad o staff sy'n gweithredu ar wahanol lefelau gan gynnwys y Prif Gwnstabl. Mae'r gweithgaredd hyd yma yn cynnwys y canlynol:

- Ceisio safbwyntiau hyfforddwyr, hyfforddeion ac eraill ar y 'profiad' hyfforddi cyfredol ac archwilio'r potensial ar gyfer ymgorffori realiti rhithwir fel offeryn hyfforddiant trochi yn amgylchedd dysgu'r heddlu.
- archwilio'r cyd-destunau, y mecanweithiau a'r canlyniadau ac ystod y cyfluniadau y mae rhaglenni hyfforddi'n 'gweithio' ynddynt wrth ymgorffori cysyniadau cam-drin domestig o safbwynt yr heddlu a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- defnyddio arsylwi anghyfranogol a chyfweliadau ansoddol mewn amrywiol fformatau gyda rhanddeiliaid i ddeall yr amgylchedd(au) addysgegol y mae addysgu a dysgu yn digwydd ynddynt.

Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi cynnal 80 awr o gasglu data gan gynnwys cyfweliadau ymchwil a grwpiau ffocws ar-lein.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr

**BRAKE – Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Ffyrdd**

**£45,785.13**

Cafodd y cynllun peilot hwn, a lansiwyd yn 2023/24, ei ymestyn i flwyddyn ariannol 2024/25.

Roedd y cynllun peilot yn cynnwys Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Ffyrdd Dyfed-Powys pwrpasol, a oedd yn darparu cefnogaeth barhaus i ddioddefwyr damweiniau traffig ffyrdd a'u teuluoedd ac fe barhaodd hyn am 12 mis arall.

Er bod yr wybodaeth anecdotaidd o'r flwyddyn gyntaf o gyllid yn gadarnhaol iawn, roedd hi'n rhy gynnar i ddarparu gwybodaeth fanwl i werthuso buddion y rôl. Felly cytunwyd i ymestyn y cynllun peilot gwreiddiol er mwyn galluogi gwerthusiad mwy gwybodus o'r rôl.

Mae'r Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Ffyrdd yn gyfrifol am lwyth achosion o deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ffyrdd o fewn Dyfed-Powys. Mae'r rôl yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i gynorthwyo teuluoedd i lywio canlyniadau digwyddiadau trawmatig.

- Cefnogwyd 51 o achosion
- Gwelliant o 218% o'i gymharu â llwyth achosion blwyddyn 1
- Mae perthnasoedd gwell gyda swyddogion cyswllt â theuluoedd yr heddlu wedi cyfrannu at y cynnydd mewn atgyfeiriadau achosion
- Mae 82% o'r holl atgyfeiriadau wedi dod gan yr heddlu – gan leihau'r baich ar deuluoedd i atgyfeirio eu hunain




Derbyniwyd ymatebion arolwg cadarnhaol a gwell gan gleientiaid wrth adael y gwasanaeth o'u cymharu â'u hymatebion wrth ymuno â'r gwasanaeth.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Wrth Gefn Rhaglen Ymyriadau

## Pecynnau profi cyffuriau wrth ymyl y ffordd

**£10,740.42**

Ers 2019, mae'r comisiynydd wedi cefnogi Heddlu Dyfed-Powys gyda chyllid i brynu pecynnau profi cyffuriau wrth ymyl y ffordd. Gellid ond defnyddio'r gyllideb wrth gefn hon i gefnogi costau sy'n gysylltiedig â phrofion cyffuriau.

Mae gyrru dan ddylanwad cyffuriau yn broblem gynyddol yn y DU gyda chynnydd cyson o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyhuddiadau sy'n cael eu dwyn gan yr heddlu yn erbyn gyrwyr yn y DU am yrru dan ddylanwad cyffuriau.

Gwneir y canfyddiad cychwynnol ar ochr y ffordd gan ddefnyddio dull sgrinio cadach cyffuriau. Gall y prawf hwn ganfod y canlynol: canabis, opiadau, cocên, amffetaminau, methamffetaminau (MDMA, ecstasi), buprenorffin, methadon, bensodiasepinau a chetamin.

Bydd canlyniad positif ar brawf cyffuriau ar ochr y ffordd yn arwain at fynd â'r gyrrwr i orsaf yr heddlu i gael prawf gwaed.

Roedd trefniadau ariannu ar waith nes bod y gyllideb wrth gefn hon wedi'i defnyddio. Daeth y trefniant ariannu hwn i ben yn Hydref 2024 pan gafodd cyllideb y gronfa wrth gefn ei gwario'n llawn. Heddlu Dyfed-Powys sydd bellach â chyfrifoldeb llawn am ariannu'r eitemau hyn ac mae'r gost barhaus wedi'i hymgorffori yng nghyllideb yr heddlu.

*"Mae citiau cadachau cyffuriau yn offerynnau hanfodol yn y frwydr yn erbyn gyrru ar gyffuriau. Maent yn galluogi swyddogion i nodi presenoldeb sylweddau anghyfreithlon ar ochr y ffordd yn gyflym ac yn gywir, gan ddarparu canlyniadau ar unwaith sy'n cynorthwyo camau gorfodi cyflym.*
*Drwy roi adnoddau'r dechnoleg hon i'n swyddogion, rydym yn gwella eu gallu i ganfod gyrwyr sydd â nam ar eu gallu, gwella diogelwch ar y ffyrdd, a chryfhau ein hymrwymiad i gadw cymunedau'n ddiogel.*
*Nid yn unig y mae'r pecynnau hyn yn cynyddu effeithlonrwydd plismona rheng flaen ond maent hefyd yn gweithredu fel ataliad gweladwy i'r rhai sy'n ystyried gyrru dan ddylanwad cyffuriau."*

**Uwch-arolygydd Dros Dro Shaun Bowen**



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Wrth Gefn Deddf Enillion Troseddau

## Adnodd Tîm Troseddau Economaidd
**£100,511.92**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi parhau i ddarparu cyllid tuag at gostau cyflogau'r canlynol:

- **Ymchwilydd Ariannol (100%)**
- **Swyddog Diogelu (50%)**
- **Swyddog Brysbennu Twyll (50%)**

Mae'r rhain i gyd wedi'u lleoli o fewn y Tîm Troseddau Economaidd yn Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r Tîm Troseddau Economaidd yn cynnal ymchwiliadau Deddf Enillion Troseddau.

Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth wedi cynyddu effeithlonrwydd ymchwiliadau adferiad sifil gan arwain at ddyfarnu nifer sylweddol fwy a fforffediadau.

Mae'r pŵer ychwanegol hwn wedi lleihau capasiti mewn meysydd mwy confensiynol eraill o ymchwiliadau ariannol.

**Anfonwyd 3,328 o adroddiadau at Action Fraud.**

### Ymgyrch Signature

Mae'r ymgyrch yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr o dwyll sy'n agored i niwed, gan ddarparu gwasanaeth o lefel uwch i'w hamddiffyn a'u diogelu'n well rhag dioddef aml-droseddau yn eu herbyn.

**267** o atgyfeiriadau

51% benywod
49% gwrywod

Cyfanswm yr arian a gafodd ei ddwyn gan y dioddefwyr hyn oedd:
**£3,833,297**

**Llwyddwyd i gael gorchmynion adferiad sifil gwerth cyfanswm o £119,216.**

### Y Protocol Bancio

Cynllun cenedlaethol rhwng yr heddlu a'r sector ariannol. Ei nod yw nodi cwsmeriaid banc sydd yn y broses o gael eu herlid, a'u hatgyfeirio i ymgyrch Signature.

Ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i **95** o ddigwyddiadau Protocol Bancio, gan atal colli:

**£409,344**

**Cyfanswm y colledion ariannol a ddioddefwyd gan yr holl ddioddefwyr oedd £20,086,465.**

### Twyll Rhamant

Mae twyll rhamant yn cyflwyno'r lefelau uchaf o fygythiad, niwed a risg i ddioddefwyr oherwydd y tactegau a ddefnyddir gan droseddwyr i weithredu'n gymdeithasol ac ysglyfaethu ar emosiynau a gwendidau dioddefwr i ddwyn arian dros gyfnod parhaus.
Cafodd Heddlu Dyfed-Powys **112** o adroddiadau am dwyll rhamant drwy gydol y flwyddyn, ac o'r rhain cyfeiriwyd **79** i Ymgyrch Signature. Cyfanswm y golled ariannol i'r dioddefwyr hynny oedd:
**£1,073,180**



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd

| Sefydliad | Disgrifiad | Rhodd |
|---|---|---|
| **Taith Undod yr Heddlu** | Mae Taith Undod yr Heddlu yn ddigwyddiad beicio elusennol sy'n codi arian ar gyfer sefydliad gofalu am oroeswyr heddlu'r DU (UK Care of Police Survivors (COPS)). Mae'r digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth ac yn anrhydeddu swyddogion heddlu sydd wedi marw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Yn ystod digwyddiad 2024/25 ymunodd derbynnydd uniongyrchol o’r elusen hon â thîm Dyfed-Powys i anrhydeddu ei dad a fu farw’n haf 2023. | **£1,000.00** |
| **Clwb Pêl-droed Rhaeadr Gwy** | Yn ystod haf 2023, bu farw swyddog heddlu Dyfed Powys, yr Arolygydd Gareth Earp, yn drasig mewn gwrthdrawiad traffig ffordd. Mae Clwb Pêl-droed Rhaeadr Gwy wedi trefnu twrnamaint pêl-droed chwech bob ochr i dalu teyrnged i Gareth. Cynhaliwyd y twrnamaint union flwyddyn ers marwolaeth Gareth. Darparwyd rhodd i gefnogi'r digwyddiad hwn a thalu teyrnged i swyddog poblogaidd ac uchel iawn ei barch a wasanaethodd yn Heddlu Dyfed-Powys am 21 mlynedd. | **£500.00** |
| **Lloches Ffoaduriaid Y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth** | Mae Lloches Ffoaduriaid y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth yn sefydliad gwirfoddol sy'n croesawu pobl sy'n chwilio am loches, gan ddarparu seibiant tymor byr i ffoaduriaid. Darparwyd rhodd i gefnogi eu digwyddiad Diwrnod Croeso ym mis Medi 2024. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ffoaduriaid a chymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau amlddiwylliannol - gan greu lle diogel a chroesawgar i bawb. | **£250.00** |
| **Cofeb Pwylaidd Llanelli** | Darparwyd rhodd i gefnogi gosod cofeb yn Neuadd y Dref, Llanelli i goffáu’r awyrfilwyr Pwylaidd a gollodd eu bywydau yn Sir Gaerfyrddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd a’r cyn-filwyr rhyfel Pwylaidd sy’n gysylltiedig â’r ardal. Roedd y gweithgaredd hwn yn cyd-daro â digwyddiadau cofio D-Day a gynhaliwyd yn Llanelli yn ystod haf 2024. | **£250.00** |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd

| Sefydliad | Disgrifiad | Rhodd |
|---|---|---|
| **Ambiwlans Sant Ioan** | Bob blwyddyn, mae Ambiwlans Sant Ioan yn arwain cydweithrediad amlasiantaeth i gefnogi myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i Brifysgol Aberystwyth. Yn ystod mis Medi, mae Wythnos Glasfyfyrwyr y Brifysgol yn cynyddu economi nos tref Aberystwyth gan ychwanegu pwysau sylweddol ar yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, yr ysbyty leol a gwasanaethau allweddol eraill.  Darparwyd rhodd i gefnogi'r gweithgaredd hwn a digwyddiadau cysylltiedig yn ystod Wythnos y Glasfyfyrwyr. | **£500.00** |
| **Seremoni Wobrwyo Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru** | Mae seremoni flynyddol gwobrwyo cyflawniad clybiau ieuenctid Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru yn noson ysbrydoledig sy'n ymroddedig i gydnabod a dathlu gwaith caled, ymroddiad a chyflawniadau'r bobl ifanc anhygoel yn ein cymuned. Mae'r seremoni wedi'i chynllunio i wobrwyo unigolion ifanc sydd wedi dangos ymrwymiad, twf a chyfraniad eithriadol i'r clybiau ieuenctid, cymunedau lleol a thu hwnt. Rhoddodd y comisiynydd rodd i gefnogi'r seremoni wobrwyo a gynhaliwyd ym Mosg Hwlffordd yn ystod mis Rhagfyr 2024. | **£500.00** |
| **Ysgol Harri Tudur - Amser Trosedd 2025** | Dyfeisiodd, datblygodd a pherfformiodd disgyblion o Ysgol Harri Tudur ddrama sy’n ysgogi meddwl ac sy’n codi materion pwysig gyda disgyblion Blwyddyn 8 ar draws ysgolion uwchradd Sir Benfro. Mae'r perfformiad yn canolbwyntio'n bennaf ar linellau cyffuriau, cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanlyniadau troseddu. Darparodd y comisiynydd rodd gan gyfrannu 50% o gostau’r canlynol: – cyflogau adnoddau; teithio a phrynu propiau. Cefnogwyd y 50% sy'n weddill gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Benfro. | **£335.15** |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyllid grant a dderbyniwyd

Yn ystod 2024/25, derbyniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu dri chontract cyllid grant gan y Swyddfa Gartref:

- **Strydoedd Saffach - Rownd 5**

  **£354,999.96**
- **Ardaloedd sydd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol**

  **£820,702.29**
- **Dyletswydd Trais Difrifol**

  **£186,761.23**

Home Office

Derbyniwyd grant pellach gan Lywodraeth Cymru:

- **Rhaglen CARA (rhoi rhybuddiad ar gyfer cam-drin mewn perthynas)**

  **£10,000.00**

Mae'r cronfeydd hyn wedi'u cynllunio i gynorthwyo dioddefwyr a/neu atal niwed yng nghymunedau Dyfed-Powys.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Strydoedd Saffach 5

Yn ystod 2023-24, sicrhaodd SCHTh gyllid o bron i £800,000 o Gronfa Strydoedd Saffach 5 y Swyddfa Gartref.
Roedd y gronfa hon yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2025.

Roedd y prosiectau a gyflawnwyd drwy'r gronfa hon yn cynnwys mentrau ymyrraeth sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, troseddau meddiangar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Roedd y cydweithwyr yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, awdurdodau lleol a phartneriaid sector arbenigol gan gynnwys sefydliadau cam-drin domestig.

Manylwyd ar ddisgrifiad o'r ymyriadau a ddarparwyd drwy'r gronfa hon yn Adroddiad Blynyddol SCHTh 2023/24 (tudalennau 27-33).

adroddiad-blynyddol-comisiwn-heddlu-2023-34-cymraeg-arlein.pdf

Daeth dau o'r prosiectau i ben ym mis Mawrth 2024 - Canolfan Menywod a theledu cylch cyfyng Aberystwyth.

Bydd y sleidiau nesaf yn manylu ar y gweithgaredd a gyflawnwyd yn 2024/25.

# Strydoedd Saffach 5

## Heddlu Dyfed-Powys – Addysg ac Atal - £201,352.88

### Oedran 14 - 18: Theatr Ysgolion – Perfformiad mewn Addysg

Nod y gweithgaredd hwn oedd mynd i'r afael â throseddau trais yn erbyn menywod a merched ac atal y troseddau hynny, gan ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol ymhlith pobl ifanc.
Darparwyd hyfforddiant i dros 600 o fyfyrwyr rhwng 14 ac 16 oed.

- Roedd 78% o fyfyrwyr yn deall ystyr trais rhywiol
- Roedd 60% o fyfyrwyr yn teimlo'n hyderus y byddent yn rhoi gwybod am ddigwyddiad pe byddent yn dyst.
- Roedd 83% o fyfyrwyr yn teimlo'n hyderus y byddent yn gallu ymyrryd yn ddiogel.



### Oedran 16 - 23: Ymwybyddiaeth o Fregusrwydd – Llwybrau Newydd

Cyflwynodd Llwybrau Newydd hyfforddiant a gweithdai i sefydliadau addysg bellach ac uwch i wella ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r rhai sy'n agored i drais yn erbyn menywod a merched.

- 30 sesiwn hyfforddi ar fregusrwydd ac aflonyddu/trais rhywiol
- 14 sesiwn am ddiogelwch cymdeithasol ar y cyfryngau cymdeithasol
- 4 gwe-seminar am flacmel rhywiol
- 23 gweithdy ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol



### Oedran 24+: Cynghreiriaeth Dynion – Y tu hwnt i gydraddoldeb

Mae rhaglen Cynghreiriaeth Dynion yn hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol, yn tarfu ar ddisgwyliadau negyddol a stereoteipiau, gan rymuso dynion i fod yn gynghreiriaid gwell i fenywod a merched.

Cyflwynwyd sesiynau wyneb yn wyneb mewn pedair carfan gyda dynion ac yna gweithdai rhithwir, gan ddatblygu rhwydwaith o gynghreiriaid.

Roedd y rhaglen yn annog dynion i greu newid tuag at gydraddoldeb rhywedd a pherthnasoedd iachach.

Mae'r adborth yn disgrifio'r sesiynau fel rhai sy'n ysgogi meddwl ac sy'n heriol, gan wneud i ddynion fyfyrio ar eu perthnasoedd â menywod a sut mae eu hymddygiadau wedi'u llywio gan eu hamgylcheddau, yn y gwaith, gartref ac yn y gymuned.




### Ap WalkSafe

Mae'r ap yn cefnogi nodi/osgoi mannau problemus o ran troseddu ac yn cynorthwyo llwybrau diogel gartref.
Bydd y data a gesglir o'r ap yn cael ei rannu â phartneriaethau amlasiantaeth i hyrwyddo mentrau diogelwch ledled Dyfed-Powys.

Aeth yr ap yn fyw ym mis Mawrth 2025 yn dilyn geo-fapio helaeth ar draws ardal yr heddlu, gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau economi nos.

Bydd yr ap hwn yn rhan o'r gwaith plismona bro ac atal yn Heddlu Dyfed-Powys.




### Cymorth ymgyrch - Crimestoppers

Mae gan Dyfed-Powys boblogaeth wledig sylweddol a all fod yn anodd ei chyrraedd yn aml.

Cynorthwyodd/cynghorodd Crimestoppers arweinwyr ymyrraeth ar y ffordd orau o gysylltu â'r cymunedau hyn i sicrhau cynrychiolaeth deg i bob preswylydd.

Dangosodd y gefnogaeth hon gyrhaeddiad o 150k ar draws Dyfed-Powys. Mae monitro a metrigau y cyfryngau cymdeithasol wedi dangos y canlynol:
- 1,789,963 o argraffiadau
- 13,818 o gliciau ar ddolenni
- 154,853 o gyrhaeddiadau

CrimeStoppers.
Speak up. Stay safe.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Strydoedd Saffach 5

## Bystander Plus - £109,178.38

**Wedi'i gyflwyno gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru** (partner arweiniol); **Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin; Gwasanaeth Cam-drin Domestig Trothwy; Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn**

Cyflwyno hyfforddiant hyfforddiant ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol i ystod amrywiol sefydliadau, gan ganolbwyntio ar reoli diogelwch/risgiau pawb sy'n ymyrryd.

Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi adnabod a risgiau troseddau yn erbyn menywod a merched /casineb mewn mannau cyhoeddus. Dysgwyd hyfforddeion sut i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl, gan gadw eu hunain yn ddiogel rhag niwed.

- **Cyflwynwyd 32 sesiwn hyfforddi**
- **Cynhaliwyd 44 o ddigwyddiadau ymgysylltu**
- **Ymgysylltwyd â 1,649 o aelodau'r gymuned**
- **Hyfforddwyd 190 o unigolion**
- **Crëwyd 89 o lysgenhadon cymunedol**

## Fy Man Diogel - £16,734.88

**Cyflwynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin**

Cydweithiodd Cyngor Sir Caerfyrddin â Swyddogion Lleihau Troseddu yn Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu cynnyrch i gefnogi dioddefwyr/goroeswyr troseddau trais yn erbyn menywod i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Sicrhaodd y prosiect fod hawliau dioddefwyr a goroeswyr i aros yn ddiogel yn eu cartrefi yn cael eu diogelu trwy ddarparu tair elfen gwasanaeth allweddol:

- **Gwybodaeth**
- **Cyngor**
- **Cymorth Ymarferol**

Lliniarodd hyn y risgiau a achosir iddynt a'u teuluoedd gan droseddwyr cam-drin.
Gwariwyd y cyllid yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2024 gyda'r canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

- **Cefnogwyd 74 o deuluoedd**
- **Danfonwyd a gosodwyd 87 o becynnau diogelwch**

## Cysylltu Cymunedau - £27,733.82

**Cyflwynwyd gan Gyngor Sir Penfro**

Mae amnestau gwastraff ar draws ystadau tai yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Sir Benfro wedi arwain at welliannau gweladwy, gan gynnwys gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol.

Mewn cydweithrediad ag ystod eang o asiantaethau, mae'r digwyddiadau ymgysylltu wedi cynyddu gwelededd wrth gefnogi trigolion sydd â phroblemau cymdeithasol, domestig ac amgylcheddol.

- **1 digwyddiad amnest gwastraff yn cefnogi 140 o gartrefi gyda thua 350 o drigolion**
- 3 digwyddiad ymgysylltu
  508 o fynychwyr
  19 o asiantaethau yn cynnig cymorth
- - Mwy o ymgysylltiad
  - Balchder yn yr amgylchedd lleol
  - Gwell ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Yn ystod 2024/25, derbyniwyd bron i £1 miliwn o gyllid gan y Swyddfa Gartref.

Menter a gefnogwyd gan y llywodraeth oedd Cronfa Ymateb i Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd problemus a nodwyd, a lleihau nifer y digwyddiadau o'r fath. Nod y gronfa oedd sicrhau mwy o bresenoldeb swyddogion mewn iwnifform mewn ardaloedd problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys patrolio ychwanegol gan wasanaethau cyhoeddus, tarfu'n sylweddol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus/canol trefi a chynyddu ymgysylltiad ac ymddiriedaeth y gymuned leol a busnesau.

Derbyniodd Heddlu Dyfed-Powys a'r pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth gyllid, gan gyflawni sawl menter a oedd yn bodloni amodau'r grant dros gyfnod y flwyddyn.

Bydd y sleidiau nesaf yn manylu ar y gweithgareddau a gyflwynir drwy'r gronfa hon.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Heddlu • Police
DYFED POWYS

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Cyngor Sir Powys County Council



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

## Heddlu Dyfed-Powys – £473,439.64

### Dadansoddiad



Costau adnoddau ar gyfer dadansoddwyr a datblygwyr systemau i greu system adrodd a dangosfwrdd cyflwyno a oedd yn cofnodi amseroedd patrôl ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd hyn yn darparu diweddariadau amser real ac yn cefnogi nodi problemau a/neu welliannau'n gyflym.

### Patrolau

Dewiswyd 10 canol tref fel lleoliadau problemus a dderbyniodd weithgarwch patrolio ychwanegol drwy gydol 2024/25. Cefnogodd cyllid gostau goramser swyddogion a oedd yn cynnal patrolau mewn mannau problemus ar ddiwrnodau gorffwys a neilltuwyd iddynt.

- **Caerfyrddin**
- **Rhydaman**
- **Elli (Llanelli)**
- **Tyisha (Llanelli)**
- **Aberystwyth**
- **Aberaeron**
- **Hwlffordd**
- **Dinbych-y-pysgod**
- **Y Drenewydd**
- **Aberhonddu**




### Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau



- ❑ Prynu ap rhybudd cymunedol ar gyfer yr heddlu
- ❑ Prynu pecynnau ymgysylltu ar gyfer Timau Plismona Bro
- ❑ Prynu offer ar gyfer Cadetiaid yr Heddlu
- ❑ Prynu offer drôn ychwanegol



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cronfa Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



## Cyngor Sir Caerfyrddin - £113,207.50

- Wardeiniaid tai – patrolau
- Wardeiniaid amgylcheddol – patrolau
- Teledu cylch cyfyng y gellir ei ail-leoli

**1,683 o oriau patrolio**



## Cyngor Sir Ceredigion - £40,674.26

- Patrolau drôn – tipio anghyfreithlon amgylcheddol / baw cŵn
- Nodi digartrefedd

**252 awr o batrolio**



## Cyngor Sir Penfro - £126,396.71

- Gweithwyr achos ieuenctid datgysylltiedig - patrolau
- Harbwr Dinbych-y-pysgod – patrolau, gatiau harbwr a chamerâu cylch cyfyng
- Gwneud chwarae'n ddiogel – gwella parciau lleol a chyfyngu mynediad i gerbydau oddi ar y ffordd

**739 o oriau patrolio**



## Cyngor Sir Powys - £66,984.18

- Cefnogaeth Leighton Arches
- Wardeiniaid tai – patrolau
- Ymgysylltiad cymunedol
- Teledu cylch cyfyng

**53 awr o batrolio**



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol gan y llywodraeth drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022, i ddechrau ar 31 Ionawr 2023.

2024/25 yw blwyddyn olaf cynnig cyllid grant tair blynedd gan y Swyddfa Gartref i gyflawni'r Ddyletswydd Trais Difrifol o fewn Dyfed-Powys.

**Cyfanswm y dyraniad cyllido ar gyfer 2024/25 oedd £188,696.96.**

Rhannwyd hyn rhwng costau llafur a chostau nad oeddent yn ymwneud â llafur.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut y gwariwyd y cyllid yn ystod 2024/25.






Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

**Costau llafur: £76,076.43**



Roedd cyllideb Llafur yn adlewyrchu’r adnoddau a oedd eu hangen i sicrhau bod Dyletswydd Trais Difrifol yn cael ei gyflwyno'n effeithiol drwy gydol 2024/25.

Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth ddadansoddol a rheoli prosiectau i gydlynu'r canlynol:

- Ymyriadau
- Diweddariadau partneriaeth
- Adrodd ar grantiau'r Swyddfa Gartref
- Dadansoddiad o dueddiadau a themâu trais difrifol cyfredol



Adolygwyd yr Asesiad Anghenion Strategol a’r strategaeth gysylltiedig yn ystod 2024/25 – nid oedd angen unrhyw ddiweddariadau pellach.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

## Ymyriadau

| Sefydliad | Ymyrraeth | Dull | Disgrifiad | Cyfanswm nifer y bobl a gyrhaeddwyd |
|---|---|---|---|---|
| STALKINC. £1,036.01 | **Hyfforddiant cam-drin domestig a stelcio** | Hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma ac ailgynllunio gwasanaethau | Hyfforddiant proffil risg stelcio a ddarparwyd i gyfranogwyr. Cydlynydd Atal Cam-drin Domestig a Stelcio bellach yn defnyddio gwybodaeth o hyfforddiant i nodi troseddwyr er mwyn rheoli risg yn well | **Dau aelod o staff wedi'u hyfforddi** |
| Swansea City AFC £35,000.00 | **League Kicks Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe** | Rhaglen Chwaraeon<br>Mae sesiynau hefyd yn darparu mynediad i weithdai ar bynciau fel gwrth-hiliaeth, fepio, llinellau cyffuriau, troseddau a chanlyniadau a throseddau cyllyll. | Mae'r prosiect yn cyflwyno sesiynau i bobl ifanc rhwng 8 a 16 oed mewn pum lleoliad sydd ag angen mawr ledled Dyfed-Powys gyda'r nod o feithrin hyder, sgiliau ac ethos gwaith tîm.<br>**Mae hyn yn cyfeirio at gyflawniadau o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025 - ar wahân i'r cyllid a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad.** | **1,820 o bobl ifanc rhwng 8 a 16 oed.** |
| Bawso | **Codi ymwybyddiaeth o arferion niweidiol trais** | Hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma ac ailgynllunio gwasanaethau | Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y trydydd sector o'r rhwystrau y mae dioddefwyr cam-drin a thrais o blith pobl Ddu ac ethnig leiafrifol yn eu hwynebu. | **225 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi**<br>Darparwyr gwasanaeth mwy gwybodus ledled y rhanbarth sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac yn fwy gwybodus wrth weithio gyda chymunedau pobl Ddu ac ethnig leiafrifol. |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

## Ymyriadau

| Sefydliad | Ymyrraeth | Dull | Disgrifiad | Cyfanswm nifer y bobl a gyrhaeddwyd |
|---|---|---|---|---|
| **£5,712.00** | **Hyfforddiant cyfweld ysgogol** | Hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma ac ailgynllunio gwasanaethau | Mae'r hyfforddiant yn dechneg cwnsela effeithiol sydd wedi'i chynllunio ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi profi trais rhywiol a'r rheini sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol problemus. | **15 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi** |
| **£2,798.79** | **Hyfforddiant Ymyrraeth INTACT – Digwyddiadau'r Heddlu** | Atal troseddu wedi'i ffocysu | Digwyddiadau i unedau rheoli sylfaenol a phartneriaid strategol lleol yn tynnu sylw at y gwaith a wneir gan dîm INTACT i gefnogi plant a phobl ifanc ledled Dyfed-Powys | **140 o weithwyr proffesiynol** Mae digwyddiadau wedi annog rhannu gwybodaeth a datblygu arferion gorau ar draws partneriaid statudol a sefydliadau ieuenctid y trydydd sector |
| **£24,500.00** | **Tyfu** | Gwersi a gweithgareddau atal trais mewn perthnasoedd | Cymorth un-i-un i blant a phobl ifanc sy'n dyst i neu'n profi cam-drin domestig | **115 o bobl ifanc 24 oed ac iau** **25 o bobl 25 oed a hŷn** |
| **£2,660.00** | **Prosiect Celfyddydau Cymunedol** gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles, hybu hyder, a lleihau anghydraddoldebau ymhlith pobl ifanc | Rhaglenni ar ôl ysgol | Yn darparu gweithgareddau celfyddydau creadigol a cherddoriaeth am ddim i blant ac Fe'i sefydlwyd i fynd i'r afael â'r diffyg gwasanaethau lleol, yn enwedig i bobl ifanc agored i niwed ac sydd wedi ymddieithrio a'r rhai o deuluoedd incwm isel. | **130 o bobl ifanc 24 oed ac iau** |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

## Ymyriadau

| Sefydliad | Ymyrraeth | Dull | Disgrifiad | Cyfanswm nifer y bobl a gyrhaeddwyd |
|---|---|---|---|---|
| calan<br>**£11,800.00** | **Cwnsela iDdioddefwyr a Goroeswyr Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | Therapïau penodol i drawma | Yn darparu gwasanaethau cwnsela hanfodol i ddioddefwyr/goroeswyr trais a cham-drin domestig a thrais rhywiol. Y prif amcan yw darparu mynediad prydlon at gwnsela. | **3 o bobl ifanc 24 oed ac iau**<br>**27 o bobl 25 oed a hŷn** |
| New Pathways<br>**£13,728.00** | **Cwnsela arbenigol ar drais rhywiol i oresgyn trawma a lleihau dioddef ail-droseddu** | Therapïau penodol i drawma | Cwnsela arbenigol ar drais rhywiol i bobl 18-25 oed sydd wedi profi trais rhywiol. | **27 o bobl ifanc 24 oed ac iau** |
| Powys<br>**£4,500.00** | **Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt (Sioe Frenhinol Cymru)** | Ymgyrchoedd y cyfryngau | Datblygu strategaeth gyfathrebu diogelwch sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais difrifol h.y. presenoldeb gweinidog stryd gwirfoddol a gweithwyr ieuenctid yn y dref ac ymgyrchoedd lleihau niwed a defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ac alcohol | **705 o bobl ifanc 24 oed ac iau**<br>**288 o bobl 25 oed a hŷn** |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# CARA (rhoi rhybuddiad ar gyfer cam-drin mewn perthynas)

Dyfarnwyd cyllid o **£10,000.00** gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymyrraeth CARA (rhoi rhybuddiad ar gyfer cam-drin mewn perthynas) ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig sy'n destun rhybudd amodol.

Cefnogodd y cyllid gostau adnoddau i adolygu, paratoi a gweithredu CARA o fewn Dyfed Powys.

Mae CARA wedi'i leoli o fewn y system cyfiawnder troseddol fel ymyrraeth gynnar sy'n targedu troseddwyr cam-drin domestig sy'n bodloni meini prawf penodol i gael rhybuddiad amodol. O dan y fframwaith plismona dwy haen newydd, bydd rhaglen CARA yn cael ei defnyddio ar gyfer troseddwyr sy'n cael rhybuddiad dargyfeiriol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arwain y gweithgaredd hwn i geisio cefnogaeth ar sut i sefydlu'r prosiect a chael canllawiau clir ynghylch rhagofynion ar gyfer atgyfeiriadau.

**Bydd rhagor o weithgarwch caffael yn dechrau ddechrau 2025/26 i ymgorffori'r rhaglen hon yn ffurfiol yn y rhanbarth.**

Mae CARA yn ymyrraeth gynnar ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig sy'n destun rhybuddiad amodol.

Mae CARA wedi'i gynllunio i gynyddu nid yn unig ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, ond hefyd hunanymwybyddiaeth a'r cymhelliant i fynd i'r afael ag ymddygiadau a gwneud newidiadau.

Mae'n cefnogi troseddwyr i ddeall beth yw cam-drin domestig, y niwed y mae eu gweithredoedd wedi'i achosi, yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar eu partneriaid, plant a pherthnasoedd, a sut i wneud dewisiadau gwahanol yn y dyfodol ac atal yr ymddygiadau niweidiol hyn rhag dod yn fwy gwreiddiol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner